

# Negeseuon allweddol o ymchwil ar blant sy'n derbyn gofal ac ar gam-drin plant yn rhywiol

Jane Evans

Medi 2019

## Negeseuon allweddol

Mae llawer o blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol wedi dioddef mathau eraill o gam-drin hefyd, megis traïs domestig ac esgeulustod. Gall y profiad o stigma, o frad ac o ymlyniad gwael arwain at ymddygiad heriol, sy'n effeithio ar sefydlogrwydd lleoliad.

Mae'n bwysig deall y risgiau a'r ymatebion gwahanol ar gyfer bechgyn a merched, ar gyfer plant o gefndiroedd ethnig gwahanol ac ar gyfer plant anabl er mwyn eu diogelu nhw rhag camdriniaeth bellach tu mewn a'r tu allan i'r lleoliad gofal.

Mae'n bosib i ymddygiad plant fod yn arwydd o gam-drin rhywiol, hyd yn oed pan nad yw hynny wedi cael ei ddatgelu ar lafar. Ni ddylai gofalwyr aros am ddatgeliad cyn ymyrryd pan mae arwyddion eraill bod plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol.

Efallai na all plant anabl siarad am eu camdriniaeth ond mae'n bosib iddynt ddangos yr un arwyddion dieiriau ag eraill sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol.

Mae'n bosib bod plant mewn gofal sy'n ymddangos fel eu bod nhw wedi cael eu masnachu yn parhau i wynebu camarfer a chamfanteisio gan y masnachwr; mae'n rhaid i ofalwyr fod yn effro i'r risg hwn.

Er bod nifer yr adroddiadau gan staff mewn lleoliadau gofal preswyl am achosion o gam-drin yn rhywiol wedi lleihau, gallai'r plant fod mewn perygl o hyd o bobl y tu allan i'r cartref sy'n targedu preswylwyr agored i niwed ar gyfer camfanteisio.

Mae gan rai awdurdodau lleol bryderon bod rhoi plant sydd wedi cael eu cam-drin rhywiol mewn lleoliad diogel yn gallu eu gwneud yn agored i risgiau gan bobl eraill yn y lleoliad. Mae cael perthynas ystyrlon a chadarnhaol ag aelod o staff cyson sy'n helpu plant i deimlo ac i fod yn ddiogel mewn lleoliadau diogel.

Mae sefydlogrwydd a chysondeb lleoliad y gweithiwr a'r gofalwr allweddol yn hanfodol i greu ymddiriedaeth a hyder mewn plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. Mae angen i bobl sy'n gofalu am blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol gyfathrebu yn agored ac yn onest â'i gilydd, ac mae'n rhaid iddynt gael hyfforddiant a chefnogaeth am anghenion penodol y plant.

Gall canolbwytio ar ddyfodol cadarnhaol drwy addysg a chyfeillgarwch hybu cadernid mewn plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol.

Dylid rhoi addysg rhyw a pherthynas yn ofalus i blant sy'n derbyn gofal, gan bwysleisio cydraddoldeb a chaniatâd, a thrafod perthnasoedd amhriodol (gan gynnwys ar-lein, camfanteisio a rheoli a gorfodi) yn agored ynghyd â chwmpasu deinameg rhyw a materion LGBTI.

**Nodyn:** Mae'r term 'plant' yn y ddogfen hon yn cyfeirio'n gyffredinol at unigolion o dan 18 oed.

Mae ein papurau 'Negeseuon allweddol o ymchwil' yn darparu gwybodaeth gryno a pherthnasol ar gyfer ymarferwyr rheng flaen a chomisiynwyr. Maent yn crynhoi'r ymchwil ddiweddaraf mewn trosolwg hygyrch, gan gefnogi'n hyderus yr ymatebion gorau posibl i gam-drin plant yn rhywiol.

Mae plant yn cael eu rhoi mewn gofal (derbyn gofal) i'w diogelu nhw rhag esgeulustod a chamdriniaeth, gan gynnwys cam-drin rhywiol, yn y teulu neu yn y gymuned (McNeish a Scott, 2018a) – a bydd rhai plant yn cael eu cam-drin yn rhywiol, neu mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol tra byddant mewn lleoliad gofal (Stein, 2006b; Timmerman a Schreuder, 2014; McNeish a Scott, 2018b).

Mae'r plant sy'n derbyn gofal ymmsg y rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas (Stein, 2006a), ac mae'r plant sy'n cael eu rhoi mewn gofal am eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn profi heriau penodol.

Credir bod y nifer o blant mewn gofal preswyl ac sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn cael ei danamcangyfrif: efallai eu bod yn gyndyn i ddatgelu camdriniaeth i awdurdodau os ydynt yn ofni cael eu cosbi, ac efallai na all plant ifanc adnabod neu enwi ymddygiadau camdriniol (Fursland, 2017). Mae angen i weithwyr ac i ofalwyr allu adnabod arwyddion o gam-drin rhywiol er mwyn adnabod y plant sydd mewn perygl yn eu gofal nhw (Horvath et al, 2014; Milne, 2011; Stalker a McArthur, 2012). Mae cyfathrebu agored ymmsg gweithwyr a gofalwyr yn helpu i gael dealltwriaeth gywir o brofiad plentyn o gam-drin rhywiol (Milne a Collin-Vézina, 2014).

Mae'n rhaid asesu'r risgiau o gam-drin plant yn rhywiol ar gyfer plant sy'n ymddangos fel eu bod wedi eu masnachu, gan gynnwys plant ar eu pen eu hunain ac sy'n ceisio lloches; mae angen i ofalwyr fod yn ymwybodol y gallai masnachwyr barhau i geisio camfanteisio yn rhywiol ar blant (Beddoe, 2007).

## Anghenion gwahanol y plant

Nid yw'r plant mewn gofal sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn grŵp unffurf; mae ganddyn nhw anghenion gwahanol a ffyrdd gwahanol o fynegi eu trawma (Christie, 2014). Nid yw eu profiad o gam-drin rhywiol yn eu diffinio nhw: mae angen i ofalwyr ddeall pob plentyn fel unigolyn cyn bod y plentyn yn gallu siarad am y profiad o gam-drin rhywiol (Fursland, 2017). Mae'n bwysig deall y gwahanol risgiau a'r gwahanol ymatebion ar gyfer bechdyn a merched, ar gyfer plant o gefndiroedd ethnig gwahanol ac ar gyfer plant anabl, er mwyn eu diogelu nhw (Smeaton, 2013; Lindsay, 1999; Paul a Cawson, 2002; Nalavany et al, 2009; Stalker a McArthur, 2012; Edmond et al, 2006). Mae angen i wasanaethau iechyd meddwl fod ar gael i'r holl blant sydd o bosib wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. (Edmond et al, 2002).

Mae merched yn fwy tebygol o gadw eu tralloedd tu mewn – hynny yw, gallant fod yn dawedog, yn orbryderus a gallant deimlo'n isel a chael profiad o anhwylderau mwy

somatig (Edmond et al, 2002). Mae'n bosibl i fechdyn arddangos ymddygiad allanol gor-wrywaidd a blin, cymryd rhan mewn ymddygiadau rhywiol peryglus a cheisio hunan-ladd mwy (Nalavany et al, 2009; Fisher et al, 2017). Yn aml, mae dynion sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn profi anghrediniaeth ac efallai teimlo siom yn gysylltiedig â normau diwylliannol dynion. Mae hyn yn golygu bod angen rhoi sylw teg i wrando ar fechdyn, ac i ennill eu hymddiriedaeth er mwyn ymgysylltu â nhw yn therapiwtig (Dorahy a Clearwater, 2012). Am fod bechdyn yn fwy tebygol na merched i droi at weithgareddau troseadol fel ymateb i gam-drin rhywiol, mae modd i weithwyr proffesiynol gamddehongli'r arwyddion eu bod nhw wedi cael eu cam-drin (Fursland, 2017).

Mae plant anabl yn fwy tebygol o fod mewn gofal sefydliadol, lle gallai dibyniaeth gorfforol a'r angen am ofal agos – ynghyd ag unigrwydd ac ymreolaeth wedi'i leihau – eu rhoi mewn mwy o berygl (Paul a Cawson, 2002). Mae angen rhoi mwy o sylw i ddiogelu anghenion plant gydag anableddau dysgu mewn gofal preswyl – ac yn enwedig mewn lleoliadau addysg, lle efallai nad yw monitro ac arolygu mor gadarn ag ydynt mewn cartrefi gofal (Franklin et al, 2015). Mae stereoteipiau yngylch anabledd yn tybio bod plant anabl yn cael eu diogelu yn barod rhag cam-drin rhywiol; efallai fod cred wedi'i chamgymryd nad oes modd i gam-drin eu niweidio nhw (Paul a Cawson, 2002). Mae plant anabl sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn arddangos yr un ymddygiadau a'r un tralloedd meddwl, sy'n cyfleu trawma fel plant heb anabledd (Stalker a McArthur, 2012) – ond mae'n bosib bod anallu rhai plant i gyfathrebu yn golygu na fyddant yn datgelu fel mae plant eraill yn ei wneud (Paul a Cawson, 2002).

Ar gyfer plant o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sydd mewn gofal maeth ac sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, mae dysgu am eu hethnigrwydd, eu hunaniaeth a'u diwylliant, a datblygu strategaethau i wrthsefyll hiliaeth yn bwysig i weithio trwy anawsterau iechyd meddwl (Edmond et al, 2006).

## Plant mewn gofal preswyl

Efallai fod amharodrwydd rhai awdurdodau lleoliadau i ddefnyddio gofal preswyl yn gysylltiedig â'r hanes o gam-drin rhywiol mewn cartrefi plant (Utting, 1997; Stein, 2006b; Soares et al, 2019; McNeish a Scott, 2018a). Mewn ymgais i ddatrys y risg hwn, mae monitro agosach, gwiriadau cofnodion troseadol ar staff a hyfforddiant ychwanegol wedi cael eu rhoi mewn lle (Stein, 2006b; Biehal et al, 2014).

Fodd bynnag, mae angen i staff preswyl a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau yngylch lleoliadau fod yn

ymwybodol o'r risgau gan bobl y tu allan i amgylchedd y cartref gofal sy'n targedu preswylwyr agored i niwed ac sy'n eu hecsbloetio nhw'n rhywiol (Coy, 2008; Biehal et al, 2014; La Valle et al, 2016; Hallett, 2016). Os yw plant yn teimlo nad ydynt yn cael eu gofalu mewn lleoliadau preswyl, mae'n bosib y byddant yn ceisio perthynas a sylw yn rhywle arall a pheryglu cael eu camfanteisio. Mae'n bwysig i weithwyr proffesiynol ffurfio perthnasau ymweithiol gyda phlant fel eu bod yn teimlo'r gefnogaeth a bod eu hanghenion yn cael eu cydnabod (Hallett, 2016).

Mae plant mewn gofal yn gwerthfawrogi gallu meithrin ymlyniadau ystyrlon a pherthnasau gofalgar gyda gofalwyr a gweithwyr allweddol (Franklin et al, 2015). Mae plant sydd wedi ymwneud â byd anhrelnus camfanteisio'n rhywiol yn elwa o reolau a ffiniau, er eu bod yn gallu ymateb â chynddaredd i ddechrau (Fursland, 2017; Shuker, 2013).

### Defnyddio llety diogel

Mae plant sydd wedi cael eu hecsbloetio'n rhywiol yn debygol iawn o fynd ar goll neu redeg i ffwrdd (Smeaton, 2013; Berelowitz et al, 2013), a gallai hyn ddylanwadu ar ddefnyddio llety diogel. Mae'r berthynas rhwng plant yn rhedeg i ffwrdd a chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn gymhleth. Efallai na fydd tynnu'r plentyn o'r sefyllfa neu o'r lleoliad lle mae'n cael ei gamfanteisio yn datrys problemau sylfaenol megis bod yn gaeth neu broblemau perthynas (Smeaton, 2013; Hallett, 2016).

Mae modd hyrwyddo diogelwch drwy roi plant mewn ardaloedd anghysbell, drwy gyfyngu mynediad at ffonau symudol ac arian, a thrwy gynnig lefel uchel o oruchwyliaeth staff (La Valle et al, 2016). Mae cael perthynas ystyrlon a chadarnhaol gydag aelod o staff cyson yn cynnig diogelwch i blant a allai fod yn wyliadwrus o hyd mewn lleoliadau diogel (Soares et al, 2019). Mae meithrin perthynas ar sail ymddiriedaeth yn allweddol i ddarparu cymorth therapiwtig ac i gynnal sefydlogrwydd lleoliad (La Valle et al, 2016).

Mae awdurdodau lleol yn amrywio sut maent yn defnyddio gofal diogel ar gyfer plant sydd mewn perygl o gael eu camfanteisio'n rhywiol (Berelowitz et al, 2013). Er y pryderon am ddiogelwch plentyn, mae awdurdodau lleol yn aml yn ystyried bod eu rhoi mewn llety diogel yn fesur llym iawn ac maent yn cydbwyso'r risgau a'r buddion i'r plentyn yn ofalus (Hart a La Valle, 2016). Gallai unedau diogel fod yn gartref i amrywiaeth o blant gyda chymysgedd cymhleth o brofiadau o gam-drin ac o droseddu. Er hyn, mae rhai yn cynnig 'gwelyau llesiant' yn unig. Merched yw'r mwyafrif o'r plant sy'n cael eu rhoi mewn lleoliadau diogel i'w diogelu rhag cael eu cam-drin

yn rhywiol. Fel arfer, mae'r bechgyn yn cael eu rhoi yn y lleoliadau oherwydd ymddygiad troseddol (Brogi a Bagley, 1998; Coy, 2008). Gall y weledigaeth bod swyddogaeth ddeuol i'r unedau diogelwch, i gosbi rhai o'r preswylwyr, roi neges an nefnyddiol i blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol (Brogi a Bagley, 1998), ac efallai fod pryderon yngylch plant sydd wedi eu hecsbloetio'n rhywiol yn cymysgu â'r plant sydd yn gysylltiedig â gangiau (Hart a La Valle, 2016).

### Canlyniadau ar gyfer plant mewn gofal sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol

Mae plant mewn gofal sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn aml wedi cael profiad o gam-drin, o esgeulustod ac o drais ychwanegol. Maent yn dueddol o fod â phatrymau ymlyniad anhrelnus (Creegan et al, 2005; Steenbakkers et al, 2018), a gall y trawma, y stigma a'r teimlad o frad ac o ddiymadferthedd y maent wedi cael profiad ohono wneud ystyried llety a lleoliad yn heriol (Steenbakkers et al, 2018).

Gall plant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol gael profiad o ystod helaeth o broblemau corfforol ac o broblemau iechyd meddwl a allai barhau pan fyddant yn oedolion (Office for National Statistics, 2016; Christie, 2014). Gall iechyd ac ymlyniad gwael ac weithiau, ymddygiad rhywiol (Hardwick, 2005) olygu eu bod yn profi symud lleoliad yn amlach a mwy o amhariadau mewn lleoliadau na phlant eraill mewn gofal (Eggertsen, 2008; Chamberlain et al, 2006; Steenbakkers et al, 2018). Mae symud lleoliad llawer o weithiau fel arfer yn arwain at ganlyniadau gwaeth (Ward, 2009), sy'n deillio o'r teimlad o ansefydlogrwydd a hunan-barch isel. Gall hyn hefyd gynyddu'r risg o gamfanteisio'n rhywiol (Coy, 2009).

Mae modd i blant fynegi ymddygiad rhywiol neu ymddygiad rhywiol niweidiol tuag at oedolion neu blant eraill oherwydd y trawma maent wedi cael profiad ohono. Mae hyn yn eu rhoi mewn risg ychwanegol ac yn effeithio ar y gofal maent yn ei gael (Livingston Smith a Howard, 1994; Lindsay, 1999; Farmer a Pollock, 2003). Mae'n bosib i ymddygiad rhywiol tuag at oedolion beri problemau penodol mewn gofal; ac efallai y bydd gofalwyr maeth a gweithwyr preswyl gwrywaidd yn wyliadwrus o risg honiadau, er bod hyn yn anghyffredin. Mae sylw therapiwtig i anghenion heb eu diwallu sydd gan blentyn, ac i ddeall eu hanes yn cael eu hargymhell, gan ganolbwytio ar gryfderau ac ar adnoddau'r plentyn ac nid ar y broblem yn unig (Lindsay, 1999; Farmer a Pollock, 2003; Fursland, 2017).

## Sefydlogrwydd lleoliad a phwysigrwydd perthnasau

Mae plant mewn gofal sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn elwa o weithiwr allweddol cyson y maent yn ymddiried ynddo, sy'n gallu eu cyfarfod nhw o leiaf unwaith yr wythnos ac sy'n gosod egwyddorion addysgegol, sy'n ystyried trawma ac sy'n seiliedig ar gryfderau (Christie, 2018). Mewn gofal maeth arbenigol, mae'n cymryd amser i feithrin perthnasau cynnes a pherthnasau sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth ond mae'r perthnasau hyn yn allweddol ar gyfer canlyniadau cadarnhaol i blant (Shuker, 2013). Mae hyfforddi gofalwyr maeth yn cynyddu sefydlogrwydd a hyd lleoliadau (Shuker, 2013).

Nid yw tynnu plant o sefyllfaeodd o gam-drin neu o gyd-destunau o gamfanteisio yn ddigon os nad yw'r materion sylfaenol yngylch ymlyniad, perthnasau a chamdriniaeth wedi'u datrys (Graham, 2006; Hodgdon et al, 2013; Hallett, 2016). Awgrymir modelau yn seiliedig ar theori ymlyniad i'r holl blant sydd mewn argyfwng (Graham, 2006; Hodgdon et al, 2013). Mae dystiolaeth bod defnyddio modelau gofal therapiwtig yn gwella sefydlogrwydd lleoliad i blant sy'n cael profiad o anhwylder straen wedi trawma (Hodgdon et al, 2013).

Gall gwytnwch emosiynol hefyd wella sefydlogrwydd lleoliad a gwella canlyniadau'r dyfodol. Mae edrych ymlaen at y dyfodol yn meithrin gwytnwch mewn plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. Mae cynlluniau addysgol clir a bywyd ysgol llwyddiannus, ynghyd â pherthnasau â grŵp cyfoedion cadarnhaol yn gwella canlyniadau. Mae creu hunaniaeth a hunan-barch cadarnhaol yn helpu i ddatblygu gwytnwch. Mae angen sgîl i gynllunio llwybrau addysgol ac i gyfateb dyheadau a galluoedd (Edmond et al, 2006).

Mae egwyddorion rhianta da yn cynnwys gofalu am blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol neu ofalu am blant sydd ag ymddygiad rhywiol (Farmer a Pollock, 2003). Mae hyn yn cynnwys gosod ffiniau a chynnig goruchwyliaeth agos, darparu addysg rhyw a mynd i'r afael ag anghenion sylfaenol y plentyn (Fursland, 2017; Shuker, 2013).

Dylai addysg rhyw a chydborthynas dda mewn lleoliadau gofal bwysleisio cydraddoldeb a chaniatâd; siarad yn agored am berthnasau amhriodol gan gynnwys ar-lein, gamfanteisio a rheolaeth a gorfodaeth; a chynnwys deinameg rhyw a materion LGBTI (Lerpiniere et al, 2013; Paul a Cawson, 2002; Farmer a Pollock, 2003).

## Cyfathrebu â gweithwyr proffesiynol/gofalwyr eraill yngylch cam-drin rhywiol

Mae'n bwysig i weithwyr proffesiynol ac i ofalwyr oresgynt y distawrwydd sy'n amgylchynu cam-drin plant yn rhywiol. Mae'n bwysig iddynt gyfathrebu'n glir ac yn onest â'i gilydd a chreu gofod i gefnogi plant (Milne a Collin-Vézina, 2014) – pan mae'r plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol a phan nad yw'n glir os yw'r plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol. Gallai dibynnu ar y plentyn i 'ddatgelu' yn hytrach na chwilio am arwyddion amheus gyfrannu at y diffyg cyfathrebu o amgylch plant mewn gofal ac sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol (Stalker a McArthur, 2012; Milne a Collin-Vézina, 2014; Office of the Children's Commissioner, 2015). Ni ddylai gofalwyr aros am ddatgeliad ar lafar cyn ymyrryd os oes arwyddion eraill bod plentyn yn eu gofal o bosib wedi cael ei gam-drin yn rhywiol (Allnock et al, 2019).

Mae gofal maeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y mwyafri o blant mewn gofal (Narey, 2016). Yn y gorffennol, nid oedd gofalwyr maeth bob amser yn cael gwybod bod plentyn yr oeddent yn maethu wedi cael ei gam-drin yn rhywiol (Farmer a Pollock, 2003). Mae'n bwysig bod awdurdodau lleoli yn dryloyw gyda gofalwyr maeth yngylch cam-drin rhywiol, gamfanteisio rhywiol neu risgiau megis ymddygiad rhywiol neu redeg i ffwrdd. Mae'n bwysig hefyd bod cymorth a hyfforddiant penodol yn cael eu rhoi i'r gofalwyr i reoli hyn.

Yn yr un modd, mae staff mewn cartrefi preswyl yn gwerthfawrogi cyfathrebu agored yngylch y plant sydd yn eu gofal, yn ogystal â hyfforddiant penodol am gam-drin plant yn rhywiol ac am gamfanteisio (La Valle et al, 2016). Efallai fod staff yn gwybod llai am sut i weithio gyda bechgyn sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. Gallai ymddygiad a thriniaeth bechgyn o'r fath fod yn wahanol i ferched sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol (Nalavany et al, 2009; Dorahy a Clearwater, 2012). Mae'n bosib bod staff mewn unedau preswyl yn llai hyderus eu bod yn gwybod am fechdyn sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol o'u cymharu â merched sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, oherwydd mae'r pwnc yn cael ei adael allan yn aml o sgyrsiau â bechgyn (Lindsay, 1999).

## Hyfforddiant a chymorth i ofalwyr

Mae gofalwyr maeth a gweithwyr preswyl yn elwa o hyfforddiant ar gam-drin plant yn rhywiol i'w helpu nhw i weithio gydag effeithiau stigma, trawma a brad ar blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol (Hardwick, 2005). Mae model gofal therapiwtig yn helpu staff i gefnogi plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol (Berridge et al, 2011; La Valle et al, 2016). Mae gofalwyr maeth yn elwa o fod yn rhan o grwpiau cymorth, er bod dynion sy'n ofalwyr yn llai tebygol o ddod i'r grwpiau hyn (Hardwick, 2005). Mae'n bosib bod gofalwyr angen cymorth gyda thrawma eilradd (Fursland, 2017).

## Pobl sy'n gadael gofal

Efallai bydd plant mewn gofal yn cysylltu gofal â rheolaeth a ni fyddant yn gallu creu nac yn gallu gwneud penderfyniadau annibynnol neu ymarfer sgiliau diogelu bywyd. Oherwydd hyn, gallant gael eu denu gan beth sy'n gallu troi yn berthnasau â rhywun sy'n rheoli neu sy'n camfanteisio (Hallett, 2016). Mae pobl ifanc anabl sydd wedi bod mewn llety diogel mewn perygl o gael eu camfanteisio pan fyddant yn symud i fyw â chymorth neu i fyw yn annibynnol. Argymhellir cymorth gan wasanaeth oedolion agored i niwed (Franklin et al, 2015).

Gallai'r ansefydlogrwydd o symud yn aml mewn gofal a'r risgau o gamfanteisio'n rhywiol yn y gymuned arwain rhai pobl sy'n gadael gofal i gael eu camfanteisio'n rhywiol; maent angen cefnogaeth emosiynol cyn ac ar ôl gadael gofal (Coy, 2008). Mae angen rhoi sylw i'r ffactorau amddiffyn sy'n datblygu gwytnwch – megis addysg, cyfeiriadedd yn y dyfodol a pherthnasaoedd gyda chyfoedion cadarnhaol – cyn i berson ifanc adael gofal (Edmond et al, 2006). Er hynny, mae targedu troseddwyr yn effeithiol hefyd yn allweddol.

## Cyfeiriadau

- Allnock, D., Miller, P. a Baker, H. (2019) *Key Messages from Research on Identifying and Responding to Disclosures of Child Sexual Abuse*. Barkingside: Centre of expertise on child sexual abuse.
- Beddoe, C. (2007) *Missing Out: A Study of Child Trafficking in the North-West, North-East and West Midlands*. London: ECPAT UK.
- Berelowitz, S., Clifton, J., Firimin, C., Gulyurtlu, S. ac Edwards, G. (2013) "If Only Someone Had Listened": *Office of the Children's Commissioner's Inquiry into Child Sexual Exploitation in Gangs and Groups. Final Report*. London: Office of the Children's Commissioner.
- Berridge, D. Biehal, N., Lutman, E., Henry, L. a Palomares, M. (2011) *Raising the Bar? Evaluation of the Social Pedagogy Pilot Programme in Residential Children's Homes (Research Report DFE-RR148)*. London: Department for Education.
- Biehal, N. Cusworth, L., Wade, J. a Clarke, S. (2014) *Keeping Children Safe: Allegations concerning the Abuse or Neglect of Children in Care. Final Report*. London: NSPCC.
- Brogi, L. a Bagley, C. (1998) Abusing victims: Detention of child sexual abuse victims in secure accommodation. *Child Abuse Review*, 7(5):315–329.
- Chamberlain, P., Price, J., Reid, J., Landsverk, J., Fisher, P. a Stoolmiller, M. (2006) Who disrupts from placement in foster and kinship care? *Child Abuse & Neglect*, 30(4):409–424.
- Christie, C. (2018) *A Trauma-informed Health and Care Approach for Responding to Child Sexual Abuse and Exploitation: Current Knowledge Report*. London: Department of Health and Social Care.
- Christie, C. (2014) *The Range of Health Impacts Which Can Result from Child Sexual Exploitation*. Epsom: Chanon Consulting.
- Coy, M. (2009) 'Moved around like bags of rubbish nobody wants': How multiple placement moves can make young women vulnerable to sexual exploitation. *Child Abuse Review*, 18(4):254–266.
- Coy, M. (2008) Young women, local authority care and selling sex: Findings from research. *The British Journal of Social Work*, 38(7):1408–1424.
- Creegan, C., Scott, S. a Smith, R. (2005) *The Use of Secure Accommodation and Alternative Provisions for Sexually Exploited Young People in Scotland*. Barkingside: Barnardo's.

- Dorahy, M. a Clearwater, K. (2012) Shame and guilt in men exposed to childhood sexual abuse: A qualitative investigation. *Journal of Child Sexual Abuse*, 21(2):155–175.
- Edmond, T., Auslander, W., Elze, D. a Bowland, S. (2006) Signs of resilience in sexually abused adolescent girls in the foster care system. *Journal of Child Sexual Abuse*, 15(1):1–128.
- Edmond, T., Auslander, W., Elze, D., McMillen, C. a Thompson, R. (2002) Differences between sexually abused and non-sexually abused adolescent girls in foster care. *Journal of Child Sexual Abuse*, 11(4):73–99.
- Eggertsen, L. (2008) Primary factors related to multiple placements for children in out-of-home care. *Child Welfare*, 87(6):71–90.
- Farmer, E. a Pollock, S. (2003) Managing sexually abused and/or abusing children in substitute care. *Child & Family Social Work*, 8(2):101–112.
- Franklin, A., Raws, P. a Smeaton, E. (2015) *Unprotected, Overprotected: Meeting the Needs of Young People with Learning Disabilities Who Experience, or Are at Risk of, Sexual Exploitation*. Barkingside: Barnardo's.
- Fursland, E. (2017) *Caring for a Child Who Has Been Sexually Exploited*. London: CoramBAAF Adoption and Fostering Academy.
- Graham, G. (2006) Attachment theory and wellbeing for the young person in residential care: The provision of a second chance secure base for the child in crisis. *Relational Child and Youth Care Practice*, 19(1).
- Hallett, S. (2016) 'An uncomfortable comfortableness': 'Care', child protection and child sexual exploitation. *The British Journal of Social Work*, 46(7):2137–2152.
- Hardwick, L. (2005) Fostering children with sexualised behaviour. *Adoption & Fostering*, 29(2):33–43.
- Hart, D. a La Valle, I. (2016) *Local Authority Use of Secure Placements*. London: Department for Education.
- Hodgdon, H., Kinniburgh, K., Gabowitz, D., Blaustein, M. a Spinazzola, J. (2013) Development and implementation of trauma-informed programming in youth residential treatment centers using the ARC framework. *Journal of Family Violence*, 28(7):679–692.
- Horvath, M., Davidson, J., Grove-Hills, J., Gekoski, A. a Choak, C. (2014) "It's a Lonely Journey": A Rapid Evidence Assessment on Intra-familial Child Sexual Abuse. London: Office of the Children's Commissioner.
- La Valle, I. a Graham, B. gyda Hart, D. (2016) *Child Sexual Exploitation: Support in Children's Residential Homes*. London: Department for Education.
- Lerpiniere, J., Hawthorn, M., Smith, I., Connelly, G., Kendrick, A. a Welch, V. (2013) *The Sexual Exploitation of Looked After Children in Scotland: A Scoping Study to Inform Methodology for Inspection (Research Report RR-2013-05)*. Glasgow: Centre for Excellence for Children's Care and Protection.
- Lindsay, M. (1999) The neglected priority: Sexual abuse in the context of residential child care. *Child Abuse Review*, 8(6):405–418.
- Livingston Smith, S. a Howard, J. (1994) The impact of previous sexual abuse on children's adjustment in adoptive placement. *Social Work*, 39(5):491–501.
- McNeish, D. a Scott, S. (2018a) *Key Messages from Research on Institutional Child Sexual Abuse*. Barkingside: Centre of expertise on child sexual abuse.
- McNeish, D. a Scott, S. (2018b) *Key Messages from Research on Intra-familial Child Sexual Abuse*. Barkingside: Centre of expertise on child sexual abuse.
- Milne, L. (2011) *Identifying Adolescent Victims of Child Sexual Abuse in Residential Care*. Ottawa: Library and Archives Canada.
- Milne, L. a Collin-Vézina, D. (2014) Disclosure of sexual abuse among youth in residential treatment care: A multiple informant comparison. *Journal of Child Sexual Abuse*, 23(4):398–417.
- Nalavany, B., Ryan, S. a Hinterlong, J. (2009) Externalizing behavior among adopted boys with preadoptive histories of child sexual abuse. *Journal of Child Sexual Abuse*, 18(5):553–573.
- Office for National Statistics (2016) *Abuse during Childhood: Findings from the Crime Survey for England and Wales, Year Ending March 2016*. Titchfield: ONS.
- Office of the Children's Commissioner (2015) *Protecting Children from Harm: A Critical Assessment of Child Sexual Abuse in the Family Network in England and Priorities for Action*. London: OCC.
- Paul, A. a Cawson, P. (2002) Safeguarding disabled children in residential settings: What we know and what we don't know. *Child Abuse Review*, 11(5):262–281.
- Shuker, L. (2013) *Evaluation of Barnardo's Safe Accommodation Project for Sexually Exploited and Trafficked Young People*. Luton: Institute of Applied Social Research, University of Bedfordshire.

Smeaton, E. (2013) *Running from Hate to What You Think Is Love: The Relationship between Running Away and Child Sexual Exploitation*. Barkingside: Barnardo's.

Soares, C., George, R., Pope, L. a Brähler, V. (2019) *Safe Inside? Child Sexual Abuse in the Youth Secure Estate*. London: Independent Inquiry into Child Sexual Abuse.

Stalker, K. a McArthur, K. (2012) Child abuse, child protection and disabled children: A review of recent research. *Child Abuse Review*, 21(1):24–40.

Steenbakkers, A., Ellingsen, I., van der Steen, S. a Grietens, H. (2018) Psychosocial needs of children in foster care and the impact of sexual abuse. *Journal of Child and Family Studies*, 27(4):1324–1335.

Stein, M. (2006a) Research review: Young people leaving care. *Child & Family Social Work*, 11(3):273–279.

Stein, M. (2006b) Missing years of abuse in children's homes. *Child & Family Social Work*, 11(1):11–21.

Timmerman, M. a Schreuder, P. (2014) Sexual abuse of children and youth in residential care: An international review. *Aggression and Violent Behavior*, 19(6):715–720.

Uutting, W. (1997) *People like Us : The Report of the Review of the Safeguards for Children Living Away from Home*. London: The Stationery Office.

Ward, H. (2009) Patterns of instability: Moves within the care system, their reasons, contexts and consequences. *Children and Youth Services Review*. 31(10):1113–1118.

## Papurau eraill yn y gyfres 'Negeseuon allweddol o ymchwil'

Camfanteisio'n rhywiol ar blant:

- Negeseuon allweddol ar gyfer staff sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd
- Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal iechyd
- Negeseuon allweddol ar gyfer yr heddlu
- Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau'r heddlu yn strategol
- Negeseuon allweddol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol
- Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau plant yn strategol
- Negeseuon allweddol ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn lleoliadau ysgolion
- Negeseuon allweddol ar gyfer gwaith aml-asiantaeth
- Bylchau yn y sylfaen wybodaeth

Plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol

Cam-drin plant yn rhywiol yn sefydliadol

Cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu

Adnabod ac ymateb i ddatgeliadau o gam-drin plant yn rhywiol

Ewch i

[www.csacentre.org.uk/resources/key-messages](http://www.csacentre.org.uk/resources/key-messages)

